



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Gweithio'n Effeithiol mewn Partneriaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Newid arfaethedig i ffin y Byrddau Iechyd i gysoni'r
modd y gwneir penderfyniadau ar draws Iechyd a
Llywodraeth Leol

Dyddiad cyhoeddi: 13 Rhagfyr 2017
Camau gweithredu: Ymatebion erbyn 7 Mawrth 2018

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn barn ynghylch cynnig y dylai gwasanaethau gofal iechyd i bobl yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gael eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn lle Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i gysoni'r broses o wneud penderfyniadau ar draws iechyd a llywodraeth leol.

Sut i ymateb Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **7 Mawrth 2018**.

Gellir cyflwyno ymatebion yn electronig drwy'r ffurflen sy'n cynnwys cwestiynau ymgynghori:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/newid-arfaethedig-i-ffin-y-byrddau-iechyd-ym-mhen-y-bont-ar-ogwr>

I ymateb i'r ymgynghoriad, naill ai llenwch y ffurflen ar-lein neu gofynnwch am yr holiadur cysylltiedig a'i ddychwelyd naill ai trwy e-bost i:

PartneriaethauEffeithiol@llyw.cymru

neu

EffectivePartnerships@gov.wales

neu drwy'r post i:

Partneriaethau Effeithiol
Llawr 1
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Gellir gweld y ddogfen ymgynghori hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/newid-arfaethedig-i-ffin-y-byrddau-iechyd-ym-mhen-y-bont-ar-ogwr>

Diogelu data Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am wybodaeth a gedwir gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ddylid ei rhyddhau ai peidio. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Rhagair

Rydym yn ddiolchgar i'r nifer o unigolion a sefydliadau a gymerodd amser i ymateb¹ i'r Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol - Cadernid ac Adnewyddiad'², sy'n ein helpu i lunio ein cynigion ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae'r newid arfaethedig i ffiniau'r bwrdd iechyd a nodir yn yr ymgynghoriad hwn wedi'i ddatblygu yn dilyn yr ymatebion i'r Papur Gwyn hwnnw, i gefnogi trefniadau partneriaeth effeithiol a gwneud penderfyniadau ar draws gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwasanaethu pobl yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBS Pen-y-bont ar Ogwr).

Er mwyn gwneud ein gorau i fodloni anghenion a disgwyliadau pobl, i sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl yn lleol, yn rhanbarthol ac yng Nghymru, credwn fod angen i wasanaethau cyhoeddus allu cydweithio'n effeithiol. Er na ddylai ffiniau fod yn rhwystr i gyflawni'r canlyniadau y mae ar Gymru eu hangen, mae cymhlethdod diangen, yn enwedig wrth wneud penderfyniadau, yn gallu gwneud hyn yn anoddach a chyfyngu ar gyfleoedd i wasanaethu'r cyhoedd hyd yn oed yn well.

Mae llymder parhaus yn golygu bod diwygio yn hanfodol os yw gwasanaethau cyhoeddus lleol i fod yn gadarn yn ariannol, i allu cynnal a gwella eu hansawdd ac i fod yn arloesol ac ymatebol i'n byd sy'n newid. Mae trefniadau partneriaeth cryf rhwng CBS Pen-y-bont ar Ogwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Abertawe Bro Morgannwg ac awdurdodau eraill yn darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus i bobl ar draws Pen-y-bont ar Ogwr a De Cymru.

Ein bwriad ar gyfer y newid arfaethedig hwn yw darparu eglurder a chysondeb i sicrhau arweinyddiaeth a phartneriaeth fwy effeithiol; cefnogi uchelgeisiau CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn ei drefniadau partneriaeth strategol ar gyfer swyddogaethau awdurdod lleol fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Gosodir hyn yng nghyd-destun ein huchelgais parhaus i fod â gwasanaethau iechyd effeithiol ac effeithlon o ansawdd uchel ledled De Cymru. Mae hyn hefyd yn gyson â'n huchelgais ehangach ar gyfer llywodraeth leol gadarn y gellir ei hadnewyddu.

Rydym yn ddiolchgar i arweinwyr CBS Pen-y-bont ar Ogwr, BIP Abertawe Bro Morgannwg a Chwm Taf am eu hymgysylltiad a'u hymrwymiad wrth ddatblygu'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid ac rydym yn gwahodd barn am y cynnig i sicrhau bod pob agwedd arno yn cael ei archwilio'n briodol ac yn agored.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn o ran egwyddor y newid yn y ffin ac o ran y prif bethau y bydd angen eu gwneud i weithredu hynny.

Alun Davies,
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Vaughan Gething,
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

¹ https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation_doc_files/170804-resilient-and-renewed-summary-reportv2-cy.pdf

² https://consultations.gov.wales/sites/default/files/consultation_doc_files/170130-white-paper-cy.pdf

Crynodeb

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn barn am gynnig y dylai gwasanaethau gofal iechyd i bobl yn ardal CBS Pen-y-bont ar Ogwr drosglwyddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg; gan symud ffin y byrddau iechyd yn unol â hynny.

Pwrpas y newid arfaethedig yw sicrhau y gellir gweithio mewn partneriaeth a gwneud penderfyniadau yn fwy effeithiol ar draws De Cymru o fewn yr uchelgeisiau ehangach ar gyfer diwygio llywodraeth leol a'r fforymau cynllunio iechyd rhanbarthol presennol.

Nod diwygio llywodraeth leol yw gwneud llywodraeth leol yn fwy effeithiol a chadarn wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae mwyafrif yr awdurdodau yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaethau gyda'r un awdurdodau ar draws gweithgarwch economaidd, gwasanaethau iechyd a swyddogaethau eraill awdurdodau lleol. Yn unigryw, mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gydag awdurdodau lleol yn ne ddwyrain Cymru i sbarduno gweithgarwch economaidd, ond mae'n rhaid iddo weithio gydag awdurdodau lleol yn ne-orllewin Cymru o fewn ardal BIP Abertawe Bro Morgannwg ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd.

Pe bai'n cael ei weithredu, byddai'r newid yn sicrhau na fyddai CBS Pen-y-bont ar Ogwr dan anfantais wrth weithio ar draws dau batrwm daearyddol strategol wrth i weithio rhanbarthol ddod yn fwy eglur. Byddai'n sefydlu CBS Pen-y-bont ar Ogwr o fewn patrwm rhanbarthol de-ddwyrain Cymru ar gyfer darpariaeth gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol sy'n ategu partneriaethau economaidd ac addysg presennol. Byddai'n golygu y bydd trefniadau partneriaeth CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn rhai y gellir eu cymharu'n fras â threfniadau partneriaeth pob un o'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Newid gweinyddol sy'n cael ei gynnig; nid newid gwasanaeth. Ond byddai'n cysoni arweinyddiaeth strategol dros swyddogaethau awdurdodau lleol gan roi mwy o gyfluoedd i wella gwasanaethau. Disgwylir i drefniadau partneriaeth symlach, mwy rhesymegol gyflawni canlyniadau gwell i bobl a chymunedau ar draws CBS Pen-y-bont ar Ogwr a'i awdurdodau partner.

Gweithio mewn Partneriaeth

Nodwyd ein huchelgais i wella a diwygio ein gwasanaethau cyhoeddus, a meithrin Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy yn ein Rhaglen Lywodraethu 5 mlynedd: Symud Cymru Ymlaen.

Ym Medi 2017 fe wnaethom gyhoeddi strategaeth genedlaethol, 'Ffyniant i Bawb', a nododd sut mae ein hymrwymiaid allweddol yn cyd-fynd â gwaith gwasanaethau cyhoeddus ehangach Cymru i osod y sylfeini ar gyfer sicrhau ffyniant i bawb.

Rydym yn parhau i ddatblygu dull partneriaeth tuag at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, gan weithio o fewn fframwaith deddfwriaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a thuag at nodau llesiant clir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Mae integreiddio a chydweithio rhwng gwasanaethau, sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, yn hanfodol i gyflawni canlyniadau hirdymor cynaliadwy na ellir eu cyflawni ond trwy gydweithio. Mae fframwaith deddfwriaethol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd yn gyrru egwyddorion integreiddio, cydweithio ac atal gyda ffocws ar lesiant pobl mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus yn barod i gyflawni'r nodau a'r uchelgeisiau hyn yn golygu sefydlu partneriaethau gwaith cyflenwol sy'n fwy effeithiol wrth uno â'i gilydd ar draws ffiniau.

Wrth wneud hynny mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau eglurder a chysondeb mewn trefniadau gwaith ar gyfer pob awdurdod lleol.

Ein nod yw creu cadernid a chefnogi adnewyddiad mewn llywodraeth leol, fel bod pobl a chymunedau lleol yn cael eu cefnogi i ffynnu ac yn gallu ymateb i her llymder ariannol parhaus.

Fel y bu i'r Papur Gwyn gydnabod mae yna broblem arbennig i GBS Pen-y-bont ar Ogwr sydd ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth ar y ddau batrwm daearyddol strategol allweddol ac sy'n gorgyffwrdd ar draws De Cymru.

I grynhoi'r prif bartneriaethau cyfredol (a archwilir yn fanylach yn Atodiad A):

- mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu gan BIP Abertawe Bro Morgannwg gydag awdurdodau partner ar draws Bae Abertawe;
- mae iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn cael eu darparu trwy fwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae'r Gorllewin, mewn partneriaeth â Chyngor Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Dinas Abertawe, BIP Abertawe Bro Morgannwg a phartneriaid eraill;
- mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i integreiddio i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer gweithgarwch economaidd gan weithio gyda phartneriaid mewn awdurdodau lleol ar draws de-ddwyrain Cymru, ac nid oes gan yr un ohonynt wasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan BIP Abertawe Bro Morgannwg;
- mae gwasanaethau gwella addysg yn cael eu darparu mewn partneriaeth â Chyngor Rhondda Cynon Taf a Chyngor Merthyr³, y ddau awdurdod lleol y mae eu gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae'r trefniadau hyn yn golygu bod yn rhaid i GBS Pen-y-bont ar Ogwr ddatblygu a chynnal cysylltiadau cryf ac effeithiol gyda nifer cymharol uchel o bartneriaid⁴.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ffurfiol ar ddiwygio llywodraeth leol, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan mewn trafodaeth gydag arweinwyr CBS Pen-y-bont ar Ogwr, BIP Cwm Taf ac Abertawe Bro Morgannwg ynghylch trefniadau partneriaeth cyfredol.

Dan arweiniad y trafodaethau hynny mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad bod gan y trefniadau presennol nifer o risgiau i GBS Pen-y-bont ar Ogwr a'i bartneriaid allweddol. Ystyrir mai'r risgiau allweddol yw:

- mae gallu aelodau etholedig i gymryd rhan mewn partneriaethau effeithiol yn cael ei ledaenu dros ddwy bartneriaeth strategol helaeth, sy'n ymestyn y gallu i ddatblygu cysylltiadau a dylanwadu ar gyfarwyddiadau strategol;

³Fel rhan o Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (CCD). Mae Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg yn bartneriaid allweddol yn y CCD hefyd, a chaiff eu gwasanaethau gofal iechyd eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

⁴Mae'r partneriaid allweddol yn cynnwys y 9 cyngor arall ym Margen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Cyngor Dinas Abertawe a Chyngor Dinas Castell-nedd Port Talbot a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Bydd y cysylltiadau hyn a chysylltiadau eraill wedyn hefyd yn cynnwys partneriaid eraill, fel yn y sector gwirfoddol.

- mae craffu a chyfranogiad democrataidd yn fwy cymhleth nag y mae angen iddo fod, ac mae'n fwy anodd i aelodau'r cyhoedd, neu sefydliadau eraill, ddeall ble mae penderfyniadau'n cael eu gwneud;
- mae yna gymhlethdod ychwanegol yn y broses o wneud penderfyniadau a llywodraethu; ac mae amser uwch swyddogion yn cael ei dreulio yn anghymesur ar reoli cysylltiadau sy'n mynd yn fwy a mwy gwahanol i'w gilydd;
- wrth i'r Fargen Ddinesig a threfniadau partneriaeth eraill barhau i ddatblygu ac wrth i'r integreiddio rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd gael ei gryfhau, bydd yn dod yn fwyfwy heriol i GBS Pen-y-bont ar Ogwr ddylanwadu ar drefniadau partneriaeth a gwasanaethau ar sail y trefniadau presennol;
- anawsterau wrth ddelio â threfniadau partneriaeth ar wahân ar gyfer meysydd polisi cysylltiedig. Er enghraifft, o dan drefniadau partneriaeth cyfredol, darperir gwasanaethau gofal cymdeithasol ac addysg ar olion traed strategol ar wahân. Mae angen i wasanaethau fel troseddau ieuencid ac anghenion dysgu ychwanegol ymhlith eraill ymgysylltu ag addysg a gofal cymdeithasol. Ystyrir bod cysoni'r gwasanaethau hyn yn well yn fuddiol.
- wrth i weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys y Fargen Ddinesig, ddod yn fwy sefydledig dros amser, disgwylir i'r her benodol i GBS Pen-y-bont ar Ogwr ddod yn fwy amlwg.

Byrddau iechyd

Yn ychwanegol at eu gwaith mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill, y mae rhywfaint ohono wedi'i ddisgrifio uchod, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud yn barod i bennu'r modd y mae rhai gwasanaethau brys a gwasanaethau allweddol mewn ysbytai yn cael eu darparu ar draws byrddau iechyd yn Ne Cymru (y cyfeirir atynt fel cyn Raglen De Cymru).

Mae'r dull partneriaeth hwn yn parhau trwy fforymau cynllunio iechyd rhanbarthol lle mae gwasanaethau ar gyfer poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r rheini sydd ar gael ar hyn o bryd ym Myrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Caerdydd a'r Fro ac Aneurin Bevan.

Ymgwymerodd cyn-raglen De Cymru (oedd yn cynnwys y pum bwrdd iechyd yn Ne Cymru - Abertawe Bro Morgannwg, Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf a Phowys - yn gweithio gyda Gwasanaeth Ambiwylans Cymru) ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol yn 2013/14 ar newidiadau oedd yn angenrheidiol i greu gwasanaethau ysbyty diogel a chynaliadwy i bobl oedd yn byw yn Ne Cymru a de Powys.

Mae'n bwysig cydnabod na fydd unrhyw newid i ffin y byrddau iechyd yn ailagor y penderfyniadau a wnaed fel rhan o Raglen De Cymru. Mae'r newid ffiniau yn cael ei gynnig i gefnogi arweinyddiaeth, gweithio mewn partneriaeth a gwneud penderfyniadau effeithiol; nid yw'n ymwneud â newidiadau i ddarparu gwasanaethau.

Mae'r cydweithio parhaus rhwng byrddau iechyd yn canolbwyntio ar wella gofal i bob claf, yn enwedig y bobl hynny y mae angen eu gweld gan y clinigwyr a'r meddygon mwyaf profiadol cyn gynted ag y maent yn cyrraedd yr ysbyty.

Yn ogystal, mae cytundebau sydd ar waith rhwng byrddau iechyd yn golygu bod gwasanaethau a chefnogaeth i gleifion yn aml yn croesi ffiniau byrddau iechyd er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i gleifion. Byddai hyn yn parhau waeth beth fo'r newid arfaethedig a nodir yn yr ymgynghoriad hwn.

Deddfwriaeth

Os dilynir y cynnig hwn, byddai angen diwygio Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 i newid y prif ardaloedd llywodraeth leol y sefydlir Byrddau Iechyd Lleol Prifysgol ABM a Chwm Taf ar eu cyfer.

Wrth sefydlu partneriaethau newydd a gwneud y newid arfaethedig i ffiniau, byddai newid i batrwm daearyddol BIP Abertawe Bro Morgannwg a Chwm Taf a fyddai â goblygiadau corfforaethol i'r ddau sefydliad.

Mae yna gorff sylweddol o waith y byddai angen i ni ei wneud gyda'r ddau fwrdd iechyd i benderfynu ar atebolrwydd, a pha asedau, contractau a staff y byddai angen eu trosglwyddo. Byddai angen mewnbwn sylweddol gan Fyrddau Iechyd Prifysgol ABM a Chwm Taf i nodi asedau a chytuno sut y byddant yn cael eu dyrannu. Ar ôl cytuno arnynt, byddai'r newidiadau gofynnol yn cael eu rhoi ar waith trwy Orchmynion Trosglwyddo.

Byddai newid y ffin hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i wneud newidiadau canlyniadol i ddarnau eraill o is-ddeddfwriaeth iechyd. Er enghraifft, mae Rheoliadau Cyngorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010 ("rheoliadau 2010") yn darparu bod aelodau'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) yn cael eu penodi, a bod pwyllgorau lleol yn cael eu sefydlu, ar gyfer pob ardal awdurdod lleol sy'n yn dod o fewn eu hardal. Os newidir y ffin, byddai angen diwygio rheoliadau 2010 i newid ardaloedd awdurdodau lleol CIC Prifysgol ABM a Chwm Taf. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r CIC lleol i archwilio'r goblygiadau ymarferol sy'n gysylltiedig ag unrhyw newidiadau a allai ddigwydd.

Newid Arfaethedig

Yn seiliedig ar y rhesymeg a nodir yn yr ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth yn cynnig mai'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau nad yw CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei roi dan anfantais gan bartneriaid lluosog strategol yw cael gwasanaethau gofal iechyd i bobl yn ardal CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi'u cynllunio, eu sicrhau a'u darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn lle BIP Abertawe Bro Morgannwg; gan symud ffin y byrddau iechyd fel y dangosir ar dudalen 12.

Bwriad hyn fyddai symleiddio'r trefniadau, sefydlu partneriaethau mwy cyffredin ar draws gweithgarwch economaidd a gwasanaethau iechyd, a chefnogi'r gwaith o gryfhau trefniadau partneriaeth rhanbarthol. Nid yw'n fwrdd newid y modd y mae gwasanaethau rheng flaen yn cael eu darparu.

Mae'r cynnig hefyd yn golygu newidiadau mewn trefniadau partneriaeth ar gyfer awdurdodau lleol o fewn ardaloedd y Byrddau Iechyd; yn benodol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM a Chynghorau Rhondda Cynon Taf a Merthyr yn ardal Bwrdd Iechyd Cwm Taf.

Cwestiynau Ymgynghori

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y byddai newid ffin y byrddau iechyd yn cryfhau'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac ardal Bae Abertawe?

Cwestiwn 2: A oes unrhyw broblemau, manteision neu risgiau sy'n benodol i'r newid arfaethedig i'r ffin nad ydynt yn cael eu hystyried yn yr ymgynghoriad hwn neu yr hoffech roi sylwadau arnynt?

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau cysylltiedig yn darparu i Ben-y-bont ar Ogwr fod yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Bae'r Gorllewin. Mae hyn yn cynnwys trefniadau partneriaeth ar gyfer asesiadau poblogaeth, cynlluniau ardal, cyllidebau cyfun (gan gynnwys mewn perthynas â swyddogaethau yn ymwneud â llety mewn cartref gofal erbyn Ebrill 2018) a Thimau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Mae rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth i GBS Pen-y-bont ar Ogwr fod yn rhan o ardal bwrdd diogelu Bae'r Gorllewin.

Bydd newidiadau i'r gofynion rheoliadol hyn yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad. Os gwneir penderfyniad, yn dilyn yr ymgynghoriad, i GBS Pen-y-bont ar Ogwr gyd-fynd ag ardal BIP Cwm Taf, bydd angen gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol i Reoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â'r swyddogaethau y cyfeirir atynt uchod, i adlewyrchu'r newid yn y ffin.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod trefniadau trosiannol gyda phartneriaid rhanbarthol ym Mae'r Gorllewin a BIP Cwm Taf mewn perthynas â'r materion hyn. Byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn amharu cyn lleied â phosibl ar GBS Pen-y-bont ar Ogwr a'i bartneriaid.

Cwestiynau Ymgynghori

Cwestiwn 3: Os gweithredir y newid i'r ffin, bydd angen diwygio rheoliadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd i ad-drefnu ffiniau'r byrddau partneriaeth rhanbarthol a'r partneriaethau sy'n diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg. A oes unrhyw faterion yr hoffech eu codi ynghylch newidiadau canlyniadol i Reoliadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)?

Cwestiwn 4: A oes unrhyw Reoliadau neu ddarpariaethau eraill o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) neu ddeddfwriaeth arall y dylid ystyried eu diwygio os gweithredir y newid arfaethedig i ffin y Byrddau lechyd?

Amseru

Mae'r Byrddau lechyd a CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi nodi bod sicrwydd ynghylch y penderfyniad i newid y ffin er lles y cyhoedd a'r staff ac maent wedi ymrwymo i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd, undebau llafur a staff yn ystod y cyfnod ymgynghori a thu hwnt.

Y mae yna oblygiadau ymarferol i GBS Pen-y-bont ar Ogwr a chynghorau eraill wrth reoli'r broses o drosglwyddo o weithio ar y cyd ar wasanaethau cymdeithasol gyda chynghorau yn ardal BIP Abertawe Bro Morgannwg i weithio mewn trefniadau newydd gyda chyd-gynghorau yn ardal BIP Cwm Taf. Efallai y bydd rhai o'r newidiadau hyn hefyd yn effeithio ar bartneriaid eraill, er enghraifft mewn sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau eraill. Fel y disgrifir uchod, mae goblygiadau sylweddol hefyd i'r Byrddau lechyd. Mae angen amser i gynllunio a gweithredu'r newidiadau hyn.

Ar yr un pryd, er nad ydym wedi cynnig bod newid y ffiniau yn ddibynnol ar gynnydd y rhaglen ddiwygio llywodraeth leol, mae sicrwydd dros ddyfodol cydweithio ar gyfer CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn bwysig i symud y Bil Llywodraeth Leol arfaethedig yn ei flaen yn bendant.

Fel y nodwyd uchod, byddai gwaith sylweddol i Fyrddau Iechyd o ran trosglwyddo staff, asedau, contractau a gwybodaeth a fyddai'n cael eu hymgorffori mewn strwythur corfforaethol gwahanol. Bydd rhywfaint o gymhlethdod yn y broses o wneud penderfyniadau a sicrhau bod swyddogaethau corfforaethol canolog yn cael eu cynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn ystod y newid, pe bai'r ffin yn newid.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai ein gweithlu ymroddedig yw ein hased mwyaf gwerthfawr o fewn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae darparu sicrwydd mewn strwythurau yn y dyfodol yn bwysig at ddibenion cynllunio corfforaethol ac i weithwyr yn y gwasanaethau cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol.

Am y rhesymau hyn, cynigir y dylai'r penderfyniad ynghylch y newid ffin arfaethedig gael ei wneud yn ystod Gwanwyn 2018 cyn cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol i'r Cynulliad. Os cytunir, mae yna ddewis i'w wneud fodd bynnag ynghylch y dyddiad ar gyfer y newid ffiniau, ac i'r Gorchmynion Trosglwyddo cysylltiedig ddod i rym. Wrth ystyried yr opsiynau mae angen cydbwysu'r angen am amser i'r trosglwyddiadau perthnasol gael eu trefnu yn erbyn ymestyn ansicrwydd wrth oedi'r newid.

Os cytunir ar y newidiadau, bwriedir iddynt ddod i rym ar 1 Ebrill 2019 fel eu bod yn cyd-fynd â'r flwyddyn ariannol er mwyn sicrhau cysondeb â phrosesau gosod y cyllidebau.

Gan gytuno i gyd-fynd â'r flwyddyn ariannol, dewis arall fyddai i'r newidiadau ddod i rym ar 1 Ebrill 2020 pe ystyrid y byddai mwy o waith yn angenrheidiol.

Cwestiynau Ymgynghori

Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu bod 1 Ebrill 2019 fel dyddiad i'r newid ffiniau ddod i rym yn realistig ac yn gyraeddadwy?

Asesiad Effaith

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael eu cynhyrchu ac maent yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/newid-arfaethedig-i-ffin-y-byrddau-iechyd-ym-mhen-y-bont-ar-ogwr>

Cynhaliwyd ymarferiad ymgysylltu helaeth hefyd fel rhan o'r Papur Gwyn a datblygiadau polisi cynharach ar y rhaglen ddiwygio llywodraeth leol. Mae'r Papur Gwyn a'r asesiadau effaith cysylltiedig i'w gweld yn: <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygio-llywodraeth-leol-cadernid-ac-adnewyddiad>

Ystyriwyd hawliau'r plentyn trwy broses sgrinio Llywodraeth Cymru, sy'n mesur yr effaith ar blant, pobl ifanc a'u hawliau. Ystyrir na fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar hawliau'r plentyn; felly ni chynhaliwyd asesiad effaith llawn.

Cwestiynau Ymgynghori

Cwestiwn 6: Mae'r Asesiad o Effaith ar y Gymraeg a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r papur ymgynghori hwn yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ynghylch effaith y cynnig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg. Mewn perthynas â'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn:

- a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu niweidiol?**
- b) A ellid ail-lunio'r cynnig er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?**

Cwestiwn 7: Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ynghylch effaith y cynigion ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Hoffai Llywodraeth Cymru gael barn ar yr asesiad hwnnw.

- a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill nad ydynt wedi'u nodi yn yr asesiad?**
- b) A allai'r cynigion gael eu hail-lunio er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?**

Casgliad


Rydym yn ddiolchgar i arweinwyr CBS Pen-y-bont ar Ogwr, BIP Abertawe Bro Morgannwg a Chwm Taf am eu hymgysylltiad a'u hymrwymiad hyd yn hyn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid i sicrhau bod pob agwedd ar y cynnig yn cael eu harchwilio'n briodol ac yn agored.

Bydd ein partneriaid yn ogystal â barn pobl De Cymru sy'n defnyddio ac yn siapio'r gwasanaethau cyhoeddus yn yr ardal yn parhau i lywio unrhyw newidiadau y byddwn yn penderfynu eu hystyried. Ein prif ystyriaeth fydd cynnal safonau mewn gwasanaethau iechyd. Fel yr amlinellwyd, mae'r newid arfaethedig yn ymwneud ag arweinyddiaeth, partneriaeth a gwneud penderfyniadau effeithiol, nid yw'n ymwneud â newid gwasanaethau iechyd lleol. Bydd y trefniadau a sefydlwyd trwy Raglen De Cymru yn parhau i fod yn sbardun ar gyfer creu cadernid a gallu i ddarparu gwasanaethau iechyd arbennig ac arbenigol ar draws y rhanbarth. Bydd canlyniadau iechyd yn parhau i sbarduno'r gwaith o lunio penderfyniadau a threfniadau i gydweithio ar draws y Byrddau Iechyd i ddarparu gwasanaethau lleol di-dor.

Mae Llywodraeth Cymru a'n partneriaid o'r farn y bydd newid y ffin yn ymdrin â rhai o'r heriau allweddol ar gyfer CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cynnig a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon yn ymwneud â sefydlu sylfaen gref ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol a sicrhau cysondeb a symlrwydd yn y trefniadau newydd. Credwn fod gweithio rhanbarthol cryf yn gonglfaen i sicrhau ffyniant i bawb a hyrwyddo datblygiad economaidd yn Rhanbarthau Bae Abertawe a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Rydym yn croesawu ymatebion ar egwyddor y newid i'r ffin, ac unrhyw fanteision a risgiau posibl yn ogystal ag unrhyw agweddau eraill ar y cynnig yr hoffech eu crybwyll.

Newid Arfaethedig i Ffiniau'r Byrddau Iechyd



Atodiad A: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr - Trefniadau partneriaeth manwl

<p>Gweithgaredd Economaidd</p>	<p>Gan gydnabod bod angen gweithredu ar y cyd ar raddfa ddigonol i gyflawni twf a ffyniant, datblygwyd Bargeinion Dinesig ym Mae Abertawe ac ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.</p> <p>Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cydffinio'n naturiol â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd⁵ ar sail patrymau gweithgarwch economaidd sefydledig a pherthynas hanesyddol sy'n seiliedig ar fuddiannau economaidd cyffredin a buddiannau eraill.</p> <p>O fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cydweithio â naw awdurdod lleol arall ar draws de-ddwyrain Cymru i ddatblygu arweinyddiaeth gryfach a mwy effeithiol ar draws y rhanbarth. Disgwylir y bydd gweithio mewn partneriaeth cryfach ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn galluogi arweinwyr awdurdodau lleol i gyfuno'r gwaith o wneud penderfyniadau, crynhoi adnoddau a gweithio'n fwy effeithiol gyda busnesau.</p> <p>O fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae gwasanaethau gofal iechyd ar draws naw awdurdod lleol yn cael eu sicrhau, eu cynllunio a'u cyflwyno naill ai gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, BIP Caerdydd a'r Fro neu Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.</p> <p>Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yw'r unig awdurdod lleol o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sydd â gwasanaethau gofal iechyd wedi'u diogelu, wedi'u cynllunio a'u cyflwyno gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.</p>
<p>Addysg</p>	<p>Mae datblygu addysg a sgiliau da yn allweddol i sbarduno gwelliannau mewn ffyniant ac ansawdd bywyd i bobl yn y rhanbarth. Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfrifol am addysg mewn ysgolion ac mae'n rhan o gonsortiw Gwella Addysg Canolbarth y De.⁶</p> <p>Mae'r awdurdodau lleol eraill sy'n bartneriaid o fewn Consortia Addysg Canolbarth y De yn ffurfio patrwm daearyddol BIP Cwm Taf a phatrwm daearyddol BIP Caerdydd a'r Fro.</p>
<p>Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</p>	<p>Mae'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru yn cynllunio, yn sicrhau ac yn darparu gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu harwain gan awdurdodau lleol ac maent yn cynnwys ystod o wasanaethau sy'n darparu cymorth i bobl mewn angen sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheiny ag anabledau corfforol neu feddyliol, plant y mae arnynt angen gofal a</p>

⁵Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys yr awdurdodau lleol canlynol: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg

⁶Mae Consortiw Canolbarth y De yn cynnwys yr awdurdodau lleol canlynol: Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg.

chael eu hamddiffyn a phobl sy'n dioddef o salwch cronig a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio'n agos ag adrannau ac asiantaethau awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys gwasanaethau GIG lleol a sefydliadau gwirfoddol, wrth ddarparu cymorth a chefnogaeth ar ffurf gwasanaethau megis timau addysg, timau cyffuriau ac iechyd meddwl cymunedol, gwasanaethau amddiffyn plant a gwasanaethau ar gyfer yr henoed.

Gan gydnabod bod gweithio mewn partneriaeth effeithiol ac integreiddio rhwng gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn hanfodol er mwyn darparu gofal a chymorth di-dor, gwnaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddarpariaeth ar gyfer trawsnewid gwasanaethau gofal a chymorth integredig a chynaliadwy a'r dull o'u cyflwyno. Sefydlwyd saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol o dan y Ddeddf, ar batrwm daearyddol y bwrdd iechyd, sy'n dwyn ynghyd y byrddau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector, dinasyddion a phartneriaid eraill. Rhaid i'r byrddau hyn asesu, cynllunio a darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol ar y cyd. Eu pwrpas yw gwella canlyniadau a llesiant pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, a gofaluwr sydd angen cefnogaeth.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) hefyd yn cyflwyno dull partneriaeth cryfach, cadarn ac effeithiol tuag at ddiogelu oedolion a phlant sydd mewn perygl. Mae hyn yn cynnwys byrddau diogelu rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Mae'r ehangu parhaus ar ofal integredig - sy'n rhoi cleifion, eu gofaluwr a'u teuluoedd wrth galon gwasanaethau - yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ac i GIG Cymru a llywodraeth leol Cymru.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru, mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o:

- fwrdd partneriaeth ranbarthol Bae'r Gorllewin, (gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg); ac
- Ardal Bwrdd Diogelu Bae'r Gorllewin (gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Dinas a Sir Abertawe).

BIP Abertawe Bro Morgannwg sy'n gyfrifol am benderfyniadau ynghylch gwasanaethau iechyd a chyflenwi'r gwasanaethau hynny yn ardal Bae'r Gorllewin, ond y bwrdd partneriaeth rhanbarthol sy'n gwneud rhai penderfyniadau yn ymwneud â gweithio integredig.

Mae 'Ffyniant i Bawb' yn rhoi pwyslais ar ofal cymdeithasol fel un o bum maes blaenoriaeth gyda champau penodol ar gyfer gwella cyfleoedd bywyd plant mewn gofal, gan fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn trwy gydweithio rhwng addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac eraill.

Mae ein cynllun tair blynedd ar y cyd ar gyfer addysg a gwasanaethau

	<p>cymdeithasol i gynyddu uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn cydnabod bod yn rhaid i wasanaethau cymdeithasol ac addysg gydweithio'n agosach, ac mae mwy a mwy o bwyslais ar gryfhau dulliau amlasiantaethol a systemau cyfan.</p>
--	--

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yn
berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiynau am yr Ymgynghoriad

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y byddai newid ffin y byrddau iechyd yn cryfhau'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac ardal Bae Abertawe?

Ydw / Nac ydw

Rhowch sylwadau yma:

Cwestiwn 2: A oes unrhyw broblemau, manteision neu risgiau sy'n benodol i'r newid arfaethedig i'r ffin nad ydynt yn cael eu hystyried yn yr ymgynghoriad hwn neu yr hoffech roi sylwadau arnynt?

Oes / Nac oes

Rhowch sylwadau yma:

Cwestiwn 3: Os gweithredir y newid i'r ffin, bydd angen diwygio rheoliadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd i ad-drefnu ffiniau'r byrddau partneriaeth rhanbarthol a'r partneriaethau sy'n diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg. A oes unrhyw faterion yr hoffech eu codi ynghylch newidiadau canlyniadol i Reoliadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)?

Oes/ Nac oes

Rhowch sylwadau yma:

Cwestiwn 4: A oes unrhyw Reoliadau neu ddarpariaethau eraill o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) neu ddeddfwriaeth arall y dylid ystyried eu diwygio os gweithredir y newid arfaethedig i ffin y Byrddau lechyd?

Oes/ Nac oes

Rhowch sylwadau yma:

Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu bod 1 Ebrill 2019 fel dyddiad i'r newid i'r ffin ddod i rym yn realistig ac yn gyraeddadwy?

Ydy/ Nac ydy

Rhowch sylwadau yma:

Cwestiwn 6: Mae'r Asesiad o Effaith ar y Gymraeg a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r papur ymgynghori hwn yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ynghylch effaith y cynnig ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg. Mewn perthynas â'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn:

a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu niweidiol?

Oes/ Nac oes

Rhowch sylwadau yma:

b) A oes modd ail-lunio'r cynigion er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?

Oes/ Nac oes

Rhowch sylwadau yma:

Cwestiwn 7: Mae'r Aseiad Effaith Cydraddoldeb a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu barn Llywodraeth Cymru ynghylch effaith y cynigion ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Hoffai Llywodraeth Cymru gael barn ar yr aseiad hwnnw.

a) A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol eraill nad ydynt wedi'u nodi yn yr aseiad?

Oes/ Nac oes

Rhowch sylwadau yma:

b) A allai'r cynigion gael eu hail-lunio er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau unrhyw effeithiau andwyol posibl?

Oes/ Nac oes

Rhowch sylwadau yma:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i'r ymgynghoriadau yn cael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb barhau yn ddiennw, ticiwch yma:

